wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Tyfu Cymru Adroddiad Arfarnu Blynyddol Blwyddyn 2 (2020)

Chwefror 2021

## Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion

Rhaglen pum mlynedd yw Tyfu Cymru rhwng 2018 a 2023, sydd â'r nod o adeiladu capasiti a gallu sector garddwriaeth fasnachol Cymru. Mae'n cael ei rhedeg gan Lantra, Cyngor Sgiliau'r Sector a Sefydliad Dyfarnu mewn diwydiannau ar sail tir, sydd wedi sicrhau £3 miliwn o gyllid Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) er mwyn cyflawni'r prosiect.

Mae'r prosiect yn uno arweinyddiaeth strategol, datblygiad sgiliau, hyfforddiant a chymorth wedi'u teilwra i ofynion ac anghenion mentrau unigol, yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad a chyfleoedd i rwydweithio. Mae Tyfu Cymru'n cefnogi garddwyr masnachol yn hytrach na thyfwyr cymunedol. Mae'n ymgorffori tri phecyn gwaith unigryw, sef:

1. Mynediad at hyfforddiant a datblygiad sgiliau a ariennir;
2. Rhwydweithio a datblygu perthnasoedd drwy gadwyni cyflenwi ac ymgysylltu fel rhwydweithiau; a
3. Hwb gwybodaeth yn cynnig mewnwelediad i'r diwydiant, a chysylltu mentrau â chefnogaeth arall.

Yn ogystal â chefnogi garddwyr, mae'r prosiect hefyd yn awyddus i fod yn llais i'r diwydiant, drwy weithio gyda phartneriaid a llunwyr polisïau i rannu gwybodaeth a hyrwyddo'r sector. Gellid crynhoi nod cyffredinol y prosiect fel ymgais i alluogi busnesau presennol y sector garddwriaeth yng Nghymru i dyfu, yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n newydd i'r sector.

## Nodau'r arfarniad

Mae Wavehill wedi cael eu comisiynu i arfarnu Tyfu Cymru. Cynhaliwyd arfarniad ar sail theori rhwng diwedd 2018 a dechrau 2019 er mwyn amlinellu cefndir a chyd-destun y rhaglen; ei theori ar gyfer newid a fframwaith ar gyfer arfarnu'r rhaglen yn y dyfodol.

Nododd y fframwaith bedair thema allweddol ar gyfer yr arfarniad:

- Thema 1: Ffit strategol – ystyried sut mae’r prosiect yn gweddu i’r seilwaith cymorth ehangach ac yn gweithio gyda phartneriaid eraill i dyfu’r sector garddwriaeth;
- Thema 2: Rheoli a chyflawni – adolygiad o effeithiolrwydd y ddarpariaeth;
- Thema 3: Canlyniadau’r gefnogaeth a ddarparwyd; a
- Thema 4: Gwerth am arian ac edrych tua’r dyfodol.

Caiff adroddiadau arfarnu blynyddol eu cyhoeddi ar ddiwedd pob blwyddyn, yn canolbwyntio ar y pedair thema uchod. Mae’r adroddiadau cychwynnol yn canolbwyntio mwy ar brosesau, ac wrth i ni nesáu at ddiwedd y prosiect, bydd y ffocws yn symud at ddeilliannau ac effeithiau.

Cafodd Adroddiad Blwyddyn 1 (yn cynnwys y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2019) ei gyhoeddi fis Mai 2020. Mae’r adroddiad hwn yn cynrychioli arfarniad yr ail flwyddyn o ddarpariaeth (h.y. hyd at fis Rhagfyr 2020). Mae’n canolbwyntio ar themâu 1-3 uchod gyda’r pwyslais mwyaf ar Thema 2: Rheoli a chyflawni, er bod hefyd adolygiad o gynnydd yn erbyn targedau cyflawni, a’r deilliannau cychwynnol a gyflawnwyd.

# Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

## 1.1 Canfyddiadau allweddol

• Mae busnesau sy'n derbyn cymorth wedi bod yn fodlon iawn ar y prosiect, gyda 51 y cant yn dweud ei fod wedi cyrraedd eu disgwyliadau, a 44 y cant arall yn dweud ei fod wedi mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau.

• Rhoddwyd 2,514 awr o gymorth hyfforddiant i unigolion a sefydliadau hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2020, gan gynnwys 1,083 o oriau wedi'u cyflawni yn 2020.

• Roedd 201 o fusnesau wedi derbyn cymorth, gan gynrychioli 47 y cant o'r sector a adnabuwyd, ac roedd 376 o unigolion wedi derbyn cymorth hyfforddiant hyd yma a 1,001 o gyfranogwyr eraill wedi'u cefnogi.

• Mae'r cymorth hyfforddiant wedi cael ei dargedu i grwpiau â blaenoriaeth, gyda phump y cant o'r busnesau sy'n derbyn cefnogaeth yn cael >100 awr yr un, ac ar ochr arall y sbectrwm, cafodd 32 y cant o fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth <5 awr o gymorth.

• Nododd dros 90 y cant o gyfranogwyr wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg sgôr 'da' neu 'ardderchog' i'r darpariaethau hyfforddiant amrywiol.

• Mae 18 o rwydweithiau bellach wedi'u sefydlu, sy'n gynnydd ers 11 yn 2019.

• Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn bositif iawn am yr agwedd rwydweithio, gyda 42 y cant yn nodi ei fod yn 'ardderchog', a 50 y cant arall yn nodi ei fod yn 'dda'.

• Cafodd yr Hwb Gwybodaeth ei lansio ym mis Tachwedd 2019 i ddarparu gwybodaeth am y farchnad i fusnesau.

• Nododd 26 y cant o'r cyfranogwyr wnaeth gymryd rhan yn arolwg 2020 eu bod wedi cael gafael ar wybodaeth a chyngor am y farchnad oherwydd y prosiect, gyda 94 y cant yn nodi ei fod wedi bod yn 'dda' neu'n 'ardderchog'.

• Roedd 96 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn fodlon ar y ffordd yr oedd y prosiect wedi addasu i'r pandemig, ac amlygwyd rhai manteision o ran y model cyflawni newydd e.e. nododd 96 y cant bod y gefnogaeth wedi dod yn fwy hygyrch.

• Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o gyfranogwyr mai darpariaeth wyneb yn wyneb yw'r flaenoriaeth, os yw'n bosibl.

• Nododd 32 y cant bod llai o gyfleoedd i rwydweithio yn un o anfanteision y model cyflawni rhithwir newydd.

• Mae Tyfu Cymru wedi bod yn weithredol iawn o ran agwedd arweinyddiaeth strategol ar y prosiect, ac wedi arwain ar bedwar arolwg ac astudiaethau ymchwil ynghylch agweddau ar y sector garddwriaeth yng Nghymru. Maent hefyd wedi bod yn rhan o ddatblygu polisïau drwy gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol gyda Llywodraeth Cymru.

• Rhagorwyd ar bump allan o chwe tharged dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) y prosiect, er ein bod llai na hanner ffordd drwy gyfnod y prosiect. Roedd rhai wedi rhagori'n sylweddol e.e. 503 y cant o'r targed 'Cyfranogwyr dan hyfforddiant'.

• Bu i lawer o gyfranogwyr nodi llawer o ddeilliannau meddal, gan gynnwys: 74 y cant yn adrodd eu bod yn fwy hyderus ac uchelgeisiol, roedd 70 y cant wedi datblygu sgiliau garddwriaeth technegol newydd a 59 y cant wedi datblygu sgiliau busnes cyffredinol, tra bod 55 y cant wedi gwella arferion busnes a 51 y cant wedi dod yn fwy cynhyrchiol.

• Mae tystiolaeth o'r arolwg yn awgrymu bod y prosiect wedi cynhyrchu twf i fusnesau sy'n cael eu cefnogi, gydag ymatebwyr yn rhoi gwybod i Tyfu Cymru am dwf mewn cyflogaeth a throsiant. Ar sail y data hwn, rydym yn cyfrifo amcangyfrif cychwynnol o dwf net mewn cyflogeion o 8.5, a thwf net mewn trosiant o £3.2m o ganlyniad i'r prosiect. Mae hyn gyfwerth ag adenilliad o £2.25 am bob £1 gaiff ei wario.

## 1.2 Casgliadau ac argymhellion

Heb os, mae darpariaeth Tyfu Cymru yn ei ddwy flynedd gyntaf wedi bod yn llwyddiant, gan ragori ar bron pob KPI, ac yn gyffredinol mae'r rhanddeiliaid a'r cyfranogwyr wedi bod yn bositif tu hwnt.

Dylid ystyried cyfanswm y cymorth hyfforddiant a roddir, gyda mwy o fusnesau'n derbyn cymorth yn ystod 2020 na 2019 gyda lefel uchel iawn o oriau hyfforddiant, yn llwyddiant ysgubol yn enwedig o ystyried yr heriau a achoswyd gan bandemig Covid-19.

Mae'n amlwg hefyd bod y ffordd y newidiodd y prosiect ei fodel cyflawni yn llwyr o ddarpariaeth wyneb yn wyneb i ddarpariaeth rithwir, a hynny'n gyflym iawn, yn llwyddiant mawr ac yn nodweddiadol o ymagwedd ystwyth a hyblyg y prosiect. Mae'r model cyflawni newydd hwn hefyd wedi amlygu llawer o fanteision, yn benodol i sector sy'n gallu bod yn anodd ei gyrraedd. Yn yr un modd, mae darpariaeth wyneb yn wyneb yn dal i fod yn well gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr, ac mae rhai agweddau megis rhwydweithio ac ymgysylltu â hwyluswyr sydd wedi bod yn anodd eu cyflawni'n rhithwir.

**Argymhelliad 1:** Unwaith y caiff y cyfyngiadau eu codi; dylai'r prosiect ystyried model cyfunol gyda chyfleoedd i ymgysylltu'n rhithwir ac ar sail wyneb yn wyneb. Gallai'r sesiynau wyneb yn wyneb gael eu recordio'n fyw a'u postio ar yr Hwb Gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall cyfranogwyr elwa ar y ddau ddull cyflawni.

Roedd y cyfranogwyr yn bositif iawn am bob agwedd ar y ddarpariaeth graidd, gyda'r Hwb Gwybodaeth hefyd yn dod yn nodwedd bwysicach yn 2020. Yn ogystal, mae darpariaeth ac arweinyddiaeth strategol y prosiect wedi dwyn ffrwyth yn ystod Blwyddyn 2. Bu i bartneriaid gydnabod mai Tyfu Cymru sy'n arwain, tra bod y prosiect hefyd wedi sicrhau y gall prosiectau eraill fod yn rhan o'u gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru wedi bod yn gryf, ac maent yn dibynnu ar y prosiect i roi mewnwelediad i'r diwydiant, ac mae enghreifftiau da iawn o'r prosiect yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, er bod peth ymgysylltiad da gydag arweinwyr polisi, yn benodol yn ystod y pandemig, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid sicrhau bod cytundeb a/neu gydnabyddiaeth fwy ffurfiol o rôl Tyfu Cymru o ran cynrychioli'r sector.

**Argymhelliad 2:** Ystyried y posibilrwydd o ddatblygu perthynas fwy ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru. Mae tystiolaeth o'n hymchwil yn awgrymu bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran creu deilliannau i fusnesau, gan gynnwys galluogi busnesau i dyfu. Mae'r prosiect wedi ceisio blaenoriaethu busnesau gyda'r potensial mwyaf ar gyfer twf, ac wedi categoreiddio pob Busnes i bedwar grŵp â blaenoriaeth. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gellid cryfhau'r broses drwy fod ag amlinelliad mwy eglur o'r math o gymorth y gall busnesau gwahanol gael gafael arno. Byddai hyn yn galluogi'r prosiect i adeiladu ar y gwaith presennol o ran targedu busnesau gyda photensial mawr ar gyfer twf.

**Argymhelliad 3:** Parhau i flaenoriaethu'r busnesau gyda photensial mawr ar gyfer twf gyda chymorth ac ymgysylltu mwy dwys. Datblygu fframwaith yn amlinellu'r ystod o gefnogaeth sydd ar gael i bob grŵp â blaenoriaeth. Gellid sicrhau hefyd bod prosesau mwy cadarn ar waith ar gyfer agweddau eraill ar ymgysylltiad busnes, gan fod hyn yn rhywbeth yr oedd y prosiect yn weithredol yn gweithio arno, gan bwrcasu system CRM. Cafwyd awgrym hefyd y gellid defnyddio'r broses Adolygu Busnes yn well fel dull mesur drwy wella ansawdd y data a gesglir.

**Argymhelliad 4:** Ystyried gwelliannau i arferion ymgysylltu â busnesau drwy gynllunio gweithredu mwy strwythuredig, adolygu a chofnodi cynnydd, yn benodol ar gyfer y grwpiau â blaenoriaeth. Bydd system CRM yn gymorth o ran hwyluso'r broses hon.

**Argymhelliad 5:** Gellid defnyddio'r Adolygiad Busnes yn well fel dull mesur drwy sicrhau ei fod yn cael ei lenwi o leiaf wrth ddechrau gweithio gyda'r prosiect (er mwyn cyfleu'r waelodlin) ac ar y diwedd, er mwyn tracio'r twf a chynnydd. Yn ogystal, byddai angen addasu'r cwestiynau ar faint y busnes er mwyn casglu gwybodaeth drosiant a chyflogaeth mwy cywir. Er bod y prosiect wedi cyflawni mwy na'r disgwyl i dyfwyr presennol, roedd y gweithgareddau ynghylch tyfu'r sector trwy arallgyfeirio amaeth yn fwy cyfyngedig.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r prosiect roi rhagor o bwyslais ac arwain rhai sy'n newydd i arddwriaeth dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys drwy fynd ar ôl cyfleoedd i gydweithio gyda'r NFU i gefnogi ffermwyr sy'n awyddus i arallgyfeirio.

Drwy adeiladu ar y gwaith y mae Tyfu Cymru eisoes wedi'i wneud i gynhyrchu twf a darparu arweinyddiaeth strategol i'r sector, dylai'r prosiect edrych i mewn i opsiynau i gynnal cyflawniad y tu hwnt i'r cyfnod cyllid presennol. Byddai hyn yn darparu parhad i'r sector ac yn sicrhau bod modd bodloni'r targedau strategol tymor hirach ynghylch twf, cynyddu rôl garddwriaeth ym maes amaeth, manteisio ar gyfleoedd arallgyfeirio a'r ddealltwriaeth gynyddol o allu'r tir yng Nghymru. Dylai'r prosiect hefyd ystyried y posibilrwydd o gael gafael ar gyllid i wella'r ddarpariaeth bresennol e.e. rhagor o fuddsoddiad i fusnesau gyda photensial mawr ar gyfer twf a/neu hwyluso mentora i ddarpar dyfwyr o'r busnesau mwyaf, mwy sefydlog yng Nghymru.

**Argymhelliad 7:** Ymchwilio opsiynau cyllid i wella a/neu ehangu cyflawniad i sicrhau mwy o barhad a darpariaeth targedau strategol ac uchelgeisiol.